Newyddion Mis Ionawr 2011

Celf ac Ati – 31 Ionawr 2011

Y tro hwn, ac yn wahanol i'r arfer, ffenestri lliw yr arlunydd Tom Denny yng Nghadeirlan Caerloyw ac Abaty Tewkesbury oedd testun ein hastudiaeth. Fel rhagarweiniad cawsom gipolwg ar gwpled o wydr lliw yn yr Abaty: ***Gweddi a Gwaith*** (2002), gyda lliw'r naill yn gwaedu i mewn i'r llall. Ceir yma adlais o arwyddair y Mynachod Benedictaidd a ddaeth i Tewkesbury yn 1102: *Laborare est Orare,* gwaith yw gweddi. Mae'r ffenestri'n seiliedig ar **Ioan 6**; pennod lle cyflwynir y syniad o Iesu fel Bara'r Bywyd.

Prif sylw'r noson oedd rhyfeddod gwaith Denny yng Nghadeirlan Caerloyw. Nid oes i'r gwaith (1993) enw na theitl, ond mae'n seiliedig a'r **Salm 148** ac **Efengyl Ioan 20: 24-29**. Yn un ffenestr gwelir aer, dwr, tân, gwynt a daear yn moliannu'r Arglwydd. Yn ffenestr yr ochr arall, yng nghanol bwrlwm o liw ceir rhaeadr, mam a phlentyn, mwd, heulwen, eira, rhew, perthi, coed, defaid, gwartheg, dynion yn marchogaeth a llew euraid. Canolbwyntia symud egniol y ddwy ffenestr ein llygaid i'r ffenestr ganol, lle ceir dehongliad o Iesu'n ymddangos i Tomos. Mae'r arlunydd yn cyfleu'r foment honno pan mae Tomos yn cyffesu: *"Fy Arglwydd a'm Duw!*" (Ioan 20: 28). Ceir astudiaeth ehangach o'r ffenestri rhyfeddol hyn ar dudalen **... ac Ati**.

Croesawu Cyn-Weinidog – 30 Ionawr 2011

Golygfa wahanol i'r arfer oedd yn wynebu cynnulleidfa Minny Street wrth iddynt gyrraedd y capel ar gyfer Oedfa'r Bore heddiw. O flaen y Sêt Fawr 'roedd dau *tepee* wedi'u lleoli. O ddarllen **Taflen y Sul** daeth yn amlwg mai ffrwyth gweithgarwch **PIMS** oedd y ddau strwythur. Gan fod tair o Ieuenctid yr Eglwys yn dod yn gyflawn aelodau yn y Gwanwyn mae **PIMS** wrthi yn hyfforddi'r darpar-aelodau. Dyna'r rheswm am y ddau *tepee:* chwe pholyn yn cynrychioli nodweddion cyflawn aelodaeth: Ufudd-dod (2 Ioan 6); Parch (Effesiaid 6: 2-3); Llawenydd (Mathew 5:9); Diolchgarwch (Philipiaid 4:6); Rhannu (Luc 3:11); a Chariad (1 Ioan 4:20-21). Y cyfan wedi eu clymu at ei gilydd â chortyn Perthynas (Salm 68:6); cyn eu gorchuddio â Gofal Duw (Salm 91:2). Parhau i astudio hanes Josua bu'r Ysgol Sul - y plantos yn addurno cerrig wrth iddynt ddysgu am hanes Josua'n croesi'r afon a'r bobl ifanc, wrth ganolbwyntio ar Josua a muriau Jericho, yn trafod y gwahanol furiau a godir yn ein cymdeithas - crefydd, hil, iaith a pherthynas - a phwysigrwydd bwrw'r gwahanfuriau hyn i lawr.

Braf oedd cael croesawu Cyn-weinidog yr eglwys yn ôl i'r pulpud am y Sul. Wrth groesawu'r Parchedig Ieuan Davies (Waunarlwydd) yn ôl i'n plith cyfeiriwyd at ei gyhoeddiad diweddaraf sef *Gwerthfawrogiad o Fywyd a Gwaith Dr Isaac Thomas* (1911-2004). Hanes Iesu yn mynd i Fethania i ymweld â Mair a Martha (Llun: Christ in the House of Martha and Mary gan Jan Vermeer van Delft (1632-1675)) ar ôl marw Lasarus (Ioan 11: 17-27) oedd sail myfyrdod Oedfa'r Bore. "Yr *oedd Bethania yn ymyl Jerwsalem"* (Ioan 11: 18) - dau le gwahanol er yn ddaearyddol agos a phan fu i Jerwsalem siomi'r Iesu, gwyddai fod yna aelwyd groesawgar ym Methania. Ai dyna sydd o fewn ein heglwys? Aelwyd groesawgar - i'r Iesu ac i ninnau - rhag siom ac atgasedd y byd? Arhosodd Mair yn y ty pan glywodd am ymweliad Iesu a gofynnwyd a oes yna bethau sy'n ein cadw ninnau ar y Sul, yn yr wythnos a hyd yn oed mewn oedfa rhag gwrando ar Iesu? Gwyddom o hanesion eraill yn y Testament Newydd fod Mair wedi gwrando ac yna wedi gweithredu. Dyna'r her i ninnau: her dod i oedfa; pwysigrwydd gwrando; ac yna gweithredu i sicrhau bod perarogl heddiw i'w arogli a'i weld yfory yn ein bywyd beunyddiol. O wneud hyn sicrhawn bywyd gwell a llawnanch i ni ac i'r byd.

Dameg yr Efrau (Mathew 13: 24-30) oedd thema'r myfyrdod yn Oedfa'r Hwyr. Fe'n hatgoffwyd bod yr heuwr wedi hau had da; creodd Duw fyd da, glan, prydferth a gwir yn unol â'i ddibenion. Yng nghanol y daioni hwn tyf efrau sy'n creu brwydr gyson ynom ac yn y byd o'n hamgylch. Fe'n rhybuddiwyd, er hynny, fel gwnaeth y Meistr yn y Ddameg, i beidio â rhuthro allan yn fyrbwyll i chwynnu'r efrau rhag ofn i ni niweidio'r da wrth wneud hynny. Daethpwyd â'r neges i'w derfyn trwy gydnabod ein bod, fel unigolion, yn cynnwys y da a'r drwg ac fe'n hanogwyd i gofio geiriau'r Salmydd: *"Arglwydd, yr wyt wedi fy chwilio a'm hadnabod"* (Salm 139: 1).

Yn ystod y prynhawn bu cynrychiolwyr o Eglwys Minny Street yn Festri Capel y Tabernacl yn gweini te i'r digartref. Rhyw unwaith y mis, ar gyfartaledd, bydd aelodau o'r eglwys yn paratoi brechdanau tra bydd eraill yn bresennol yn Festri'r Tabernacl. Ymunodd nifer o ymwelwyr newydd â ni heddiw - adwaith i'r awel lem. Fel arfer, braf oedd cael sgwrsio, cymdeithasu a rhannu profiad â'n brodyr a'n chwiorydd.

Cylch Dinasyddiaeth: Cardiau Nadolig – 29 Ionawr 2011

Yn ôl Sefydliad Meteoroleg y Byd, 2010 oedd y flwyddyn gynhesaf yn Hemisffer y Gogledd ers cychwyn casglu gwybodaeth yn 1880. Anodd dadlau erbyn hyn nad yw newid hinsawdd yn digwydd. Fel rhan o'n hymateb i'r hyn sy'n digwydd i'r amgylchedd, ac yn dilyn awgrymiadau'r **Arolwg Amgylcheddol** o dystiolaeth Gristnogol yr eglwys, bu Aelodau Minny Street yn casglu Cardiau Nadolig dros y mis diwetha f. Erbyn hyn maent wedi eu trosglwyddo i Coed Cadw a fydd yn eu gwerthu i godi nawdd i blannu coed yng Nghymru (yn arbennig felly, coed collddail cynhenid). Trwy wneud hyn ceisiwn, fel eglwys, fod yn well stiwardiaid o Gread Duw trwy leihau faint o sbwriel a gleddir a faint o goetir Cymru a ddinistrir, tra ar un bryd gwella effeithiolrwydd ein planed i leihau effeithiau allyriant nwyo n ty gwydr.

COED CADW
WOODLAND
TRUST

Munud i Feddwl: Diwrnod Cofio'r Holocost - 27 Ionawr 2011

"O Dad, maddau iddynt, oherwydd ni wyddant beth y maent yn ei wneud." Cred y Gweinidog ein bod yn gwybod mai nyni yw'r rhai na "*wyddant beth y maent yn ei wneud*" ond ein bod, fel Cristnogion, wedi taflu ein heuogrwydd ar yr Iddewon. Yn ei ail **Funud i Feddwl** yr wythnos hon, ar **Ddiwrnod Cofio'r Holocost**, ofna ein bod wedi, ac yn, croeshoelio Iesu trosodd a throsodd a throsodd.

Munud i Feddwl – 26 Ionawr 2011



Fermionau, cwarciau, hadronau, gwrthgwarciau, protonau, niwtrinos a'r Gronyn Higgs. Pob un yn pwyso fawr ddim o fawr ddim! A yw ein hymdrechion ninnau megis gronynnau pitw bach? Dyna'r cwestiwn a ofyn y Gweinidog yn ei **Funud i Feddwl** yr wythnos hon.

PIMS. Noson y *Tepee*: dod a bod yn gyflawn aelod - 24 Ionawr 2011

Beth yw bod yn aelod cyflawn o Eglwys Iesu Grist? Mynd ati i adeiladu *tepee* bu Aelodau **PIMS** heno; trwy'r gweithgarwch hwn cawsant gyfle i ddeall pwrpas ac ystyr dod a bod yn aelod. Mae gan y *tepee* chwe pholyn i sicrhau fframwaith soled: wrth ddod a bod yn gyflawn aelod *(i)* dewiswn fod yn ufudd (2 Ioan 6) i Iesu yn ein bywyd bob dydd, ac i ddysgu o'n gilydd o fewn yr eglwys; *(ii)* dewiswn barchu (Effesiaid 6: 2-3) barn, gwerth a hunaniaeth eraill, a chawn ninnau ein parchu am beth ydym; *(iii)* cawn brofi o lawenydd (Mathew 5: 9) cyfeillgarwch cwmni a chymdeithas Pobl Dduw yn Eglwys Minny Street; *(iv)* diolchwn (Philipiaid 4:6) am Ofal Duw ac am Gariad Iesu Grist; *(v)* dewiswn rannu (Luc 3: 11) ein cyfoeth ariannol a chyfoeth ein profiad, dawn a dysg er mwyn Achos Iesu; a *(vi)* dewiswn Gariad (1 Ioan 4: 20-21) Duw fel ffordd i fyw. Rhaid clymu'r polion at ei gilydd gyda chortyn perthynas (Salm 68: 6); wrth ddod a bod yn gyflawn aelod down yn aelod o Deulu'r Eglwys yn lleol a byd-eang. Rhaid hefyd wrth orchudd; wrth ddod a bod yn gyflawn aelod cawn dderbyn o ofal a chynhaliaeth Duw (Salm 91: 2) beth bynnag ddaw mewn bywyd.

Maddeuant a Goddefgarwch – 23 Ionawr 2011

Parhau â'n hastudiaeth o Weddi'r Arglwydd a wnaethom yn ein Hoedfa Foreol: *"Maddau i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr."* (Mathew 6: 12) (Llun: *The Unmerciful Servant* (1660) gan Follower of Rembrandt (1606-1669)) Mae estyn, a derbyn, maddeuant yn anodd. Addas felly mai sut i faddau oedd canolbwynt ein myfyrdod. Maddau Duw i ni o ddydd i ddydd, o awr i awr, o funud i funud, o eiliad i eiliad. Sut y maddeuwn ni i'n gilydd ac i eraill? Bu'r Gweinidog yn ein harwain trwy ***Ddameg y Gwas Anfaddeugar*** (Mathew 18: 21-35); hanes cyfarwydd am y brenin a dau o'i weision (Ffenestri: Dameg y Gwas Anfaddeugar - Eglwys yr Alban, Melbourne). Ai dweud mae'r hanes bod rhaid i ni faddau i eraill cyn bod Duw yn maddau i ni? Go brin! Neges Oedfa'r Bore oedd i ni sylweddoli nad oes modd ennill na haeddu maddeuant Duw. Mae Duw eisoes yn gwneud hynny, gan ei fod yn ein

caru, a bod cynnal a chadw perthynas yn bwysicach iddo na dim arall. Sut fedrwn ni felly beidio â maddau i'n gilydd? Rhaid i ni gydio ym mhob cyfle i faddau; cydiwn ym mhopeth sy'n ddyledus a rhwygwn hwy yn ddarnau mân, mân.

Yn ystod Oedfa'r Bore gawsom dystio i fedydd **Greta Mair Llewelyn Walters**, merch Siân ac Aled (Pontcanna) ac wyres Eiryl ac Iolo Walters. Cyn gweinyddu'r Sacrament bu'r Gweinidog yn egluro arwyddocâd y Bedydd i blant yr Eglwys trwy ddefnyddio Cadwyn Deulu Minny Street (y gadwyn a ffurfiwyd adeg Dathlu Pen-Blwydd Eglwys Minny Street yn 125 mlwydd oed yn 2009); bu'r plant wrthi yn ychwanegu dolen arall i'r gadwyn - dolen Greta. ***Josua - yr arweinydd newydd*** oedd thema astudiaeth dosbarthiadau'r Ysgol Sul; yn ystod yr oedfa bu'r aelodau wrthi yn cyflwyno adnodau ar "*Y Ffordd*." Cyngor yr Ysgolion Sul oedd yn derbyn sylw ein casgliad yn ystod y dydd.

Troi at y Salmau a wnaethom heno; ***Salm 34***. Gofyn y Salmydd gwestiwn: *"Pa un ohonoch sy'n dymuno bywyd?"* (Salm 34:12) Ai eisiau bywyd llwyddiannus, cyfoethog a dedwydd yn yr ystyr orau sydd arnom? Os felly, *"cadw dy dafod rhag drygioni … tro oddi wrth ddrygioni, a gwna dda, cais heddwch a'i ddilyn."* (Salm 34: 13) Fel cynulleidfa, hawdd oedd cytuno â'r Gweinidog os am sicrhau gwir berthynas a heddwch cymdeithasol rhwng pobl a'i gilydd rhaid wrth oddefgarwch.

Mae goddefgarwch yn rhan ganolog o'n bywyd fel Eglwysi Anghydffurfiol a mawr yw ein dyled i'r Anghydffurfwyr hynny a fynnodd oddefgarwch tuag at hawl pob person i ddilyn cydwybod mewn cymdeithas ac mewn cred. Beth yw ystyr a goblygiadau goddefgarwch i'r Cristion ac i aelodau Eglwys Annibynnol Minny Street yn 2011? Bu i ni ganolbwyntio ar sut i fynd ati i geisio heddwch trwy gydnabod argyhoeddiadau, trwy gydnabod argyhoeddiadau gwahanol a thrwy gydnabod agwedd Crist at bobl. Dafydd Jones (1711 – 1777), a adwaenir fel "***Dafydd Jones o Gaeo***", oedd Emynydd yr Oedfa Hwyrol; ffermwr a phorthmon â chysylltiadau agos ag Eglwys Annibynnol hanesyddol Crug-y-bar (llun) yn Sir Gaerfyrddin - yno hefyd y

daearwyd ei weddillion. Yn dilyn yr Oedfa Hwyrol, yn y Koinônia misol, parhau wnaeth y gymdeithas a'r drafodaeth dros bryd Eidalaidd.

Taith y Pelican - 22 Ionawr 2011

Mae mynd am dro yn yr awyr iach bob amser yn llesol. Mae cerdded yng nghwmni "*eneidiau hoff cytûn*" yn gallu bod yn fendithiol. "*Rhaid i ni fynd i olwg y môr*", meddai John Albert Evans, trefnydd y teithiau, ac fe gafwyd bore oer ond heulog i ddilyn y llwybr uwch y môr ym Mro Ogwr.

Braf oedd cael croesawu nifer o gerddwyr newydd atom gan chwyddo'r criw i ryw ugain. Mae'r arfordir yn yr ardal hon yn ddramatig ac wrth i ni oedi uwchben y "*dwnsiwn*", chwedl y Prifardd Dewi Emrys, daeth emyn mawr Simon B. Jones (1894-1964) i'r meddwl: "*Llifa ataf, fôr tragywydd, gyr dy ddyfnder oddi draw;*" (*Can.Ffydd*: 186)

Elfen bwysig o'r teithiau hyn ar ôl cerdded a sgwrsio am ryw awr yw'r cyd-gyfarfod o gwmpas bwrdd cinio, yn enwedig pan fyddwn yn crynhoi yn Y Pelican yn Ogwr. "*The Pelican in her Piety*" yw'r enw llawn ar y lle ac mae'n syndod fel y mae'r enw hynod hwn wedi goroesi o'r 15fed Ganrif. Yn y cyfnod hwnnw, ychydig iawn o'r bobl gyffredin fedrai ddarllen ond gallai pobl anllythrennog ddeall neges mewn darlun neu gerflun o belican yn pigo'i fron nes tynnu gwaed a hwnnw yn diferu i lawr i bigau agored ei gywion wrth ei draed. Alegori yw'r ddelwedd o gariad aberthol Crist dros ei blant a gellir gweld enghreifftiau o'r darlun mewn ambell eglwys a chadeirlan, fel y cerflun pren hardd (gweler llun) sydd yn hen eglwys Sant Dyfnog yn Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch yn Nyffryn Clwyd. Mae'n debyg fod y ddelwedd i'w gweld hefyd ar arfbais ambell deulu bonheddig a dyna, mae'n debyg sut y daeth i fod yn enw ar y dafarn hon, pan brynwyd y lle a'r tir o'i hamgylch ynghyd â

Phriordy Ewenni gerllaw gan dirfeddiannwr cyfoethog (Teulu'r Carne) rhyw bum canrif yn ôl. Beth bynnag am hynny, mae pob un sy'n manteisio ar y teithiau hyn yn gwerthfawrogi'r cyfle i ddod i adnabod ein cyd-aelodau yn well ac yn edrych ymlaen nawr at y Gwanwyn a'r daith nesa'.

Munud i Feddwl – 19 Ionawr 2011

Ydy bil cerdyn credyd neu fantolen banc Mis Rhagfyr wedi cyrraedd? Ystyried a rhannu'r wybodaeth gyda'r Iesu yw cyngor y Gweinidog yn ei **Funud i Feddwl** yr wythnos hon. Pa well ffordd i werthuso cyflwr ein Ffydd?

Y Gymdeithas: Lady Charlotte Guest – 18 Ionawr 2011

Un o'n haelodau, Yr Athro Sioned Davies, fu'n son am y ***Fonesig Charlotte Guest*** yng nghyfarfod y Gymdeithas heno, gan ganolbwyntio ar ***ei bywyd a'i chyfraniad i Gymru***. Magwyd Charlotte Guest yn Uffington House, Stamford, Swydd Lincoln. 'Roedd ei thad yn 68 mlwydd oed pan y'i ganwyd ac fe fu farw pan oedd Charlotte ond yn chwe blwydd oed. Datblygodd i fod yn ieithydd o fri ac 'roedd hi'n medru nifer o ieithoedd. Yr oedd yn berson amryddawn, ac yn ogystal ag ysgrifennu, profodd ei gallu fel cyfieithydd, arlunydd a menyw busnes o fri. Mae'r dyddiadur a gadwodd am 70 mlynedd yn sylwebaeth werthfawr ar fywyd cymdeithasol y cyfnod. **Mae hi'n fwyaf enwog am ei chyfieithiad o'r Mabinogi i'r Saesneg.** Yn lleol, gwnaeth gyfraniadau mawr at ddiwylliant ac addysg yr ardal trwy adeiladu llyfrgell a nifer o ysgolion - i ferched yn ogystal â bechgyn. 'Roedd hefyd yn trefnu dosbarthiadau nos i'r gweithwyr.



Priododd ag Aelod Seneddol Merthyr, John Guest, a bu iddynt ymgartrefu yn Nowlais. Dysgodd y Gymraeg, gan ddechrau cael gwersi o fewn wyth niwrnod iddi symud i Ddowlais. Pan 'roedd eraill o'i theulu yn mynychu'r eglwys, mi fuasai hi'n mynd i'r capel cyfagos a gwrando ar bregethau yn y Gymraeg. Bu'n briod â John Guest am 20 mlynedd, a thros gyfnod o 13 mlynedd cawsant ddeg o blant. Wedi marwolaeth John Guest, ailbriodododd â Charles Schreiber, gan ymsefydlu yn Llundain.

Treuliodd lawer o amser yn teithio ar hyd a lled cyfandir Ewrop gan gasglu casgliad enfawr o lestri o wahanol fathau. Mae'r casgliad i'w weld heddiw yn Amgueddfa Fictoria ac Albert yn Llundain.

Bydd cyfarfod nesaf y Gymdeithas ar **Nos Fawrth 1 Chwefror 2011** pan bydd Ann Saer yn sôn am gefndir y casgliadau fydd yn cael eu harddangos yn Orielau Newydd yr Amgueddfa Genedlaethol.

Josua, Paul a Gideon – 16 Ionawr 2011

Josua - yr arweinydd newydd oedd testun gweithgarwch yr **Ysgol Sul** heddiw wrth i'w haelodau ddechrau astudio gwerslyfr newydd *Cyfres Golau ar y Gair (Llun: . Moses and Joshua* gan Charles Bray (1922 -)) Cyflwynwyd Josua i blant a phobl ifanc yr Ysgol Sul fel un a ddewiswyd gan Dduw i arwain yr Israeliaid i Wlad yr Addewid. Tra bu'r plant yn creu addurn wal yn cyhoeddi '*Bydd yn Ddewr a Chryf - Mae Duw gyda thi'* trafod nodweddion arweinydd da bu'r bobl ifanc. Beth sy'n gwneud arweinydd da? Beth oedd yn gwneud Gandhi a Martin Luther King yn arweinyddion da? Beth sy'n gwneud Iesu Grist yn arweinydd da?

Yn **Oedfa'r Bore** gofyn wnaeth ein pregethwr gwadd, y Parchedig Haydn Thomas, Caerdydd, a oeddem yn teimlo'n well o ddathlu'r Nadolig? Fe'n hatgoffwyd sut aeth y bugeiliaid adref yn llawen ar ôl gweld yr Iesu - gan ddweud wrth eraill am yr hyn a welwyd; ar hyd ffordd arall aeth y doethion (Llun*: Return Journey of the Magi* gan James Tissott (1836-1902)) - wedi gweld yr Iesu agorir ffyrdd newydd. Addas ar ddechrau blwyddyn newydd yw edrych ymlaen at her y gwaith o fynd ati i ddweud wrth ein cyfoedion am yr hyn a welsom ac a glywsom dros y Nadolig. Fe'n hatgoffwyd o bregeth ein cennad ar ei ymweliad diwethaf ag Eglwys Minny Street; geiriau'r Archesgob Rowan Williams, o'i lyfr, *Writing in the Dust - "God always needs to be rediscovered*".

Dilyniant o Bregeth y Bore a gafwyd yn **Oedfa'r Hwyr** pryd y'n hatgoffwyd am hanes Gideon yn gorchfygu Midian, a Duw yn gorchymyn Gideon *"Y mae gennyt ormod o bobl gyda thi ..."* (Barnwyr 7: 2). Canolbwyntio ar y "***gweddill ffyddlon***" a wnaethom heno a phwysigrwydd parhau, ar waethaf

popeth, i sicrhau buddugoliaeth. Fe'n hanogwyd i wneud hyn trwy fod yn barod i gyhoeddi'r Newyddion Da mewn cymdeithas yn llawn trafferthion; ein braint yw cael bod yn rhan o'r broses achubol hon yn ein cymuned, gwlad a byd. Trwy'n hatgoffa o sut y bu i'r Apostol Paul ar ei fynych deithiau ddal at y '*pethau*' pwysig a gwerthfawr fe'n heriwyd fel eglwys i beidio, yng nghanol seciwlariaeth 2011, golli gafael ar yr hyn sydd wedi ei drosglwyddo i ni dros 2,000 o flynyddoedd.

Yn ystod y prynhawn bu rhai o aelodau Eglwys Minny Street yn paratoi a gweini **te ar gyfer y digartref** yng Nghapel y Tabernacl. Dim ond rhyw 20 a alwodd i mewn heddiw - gwahanol iawn i'r degau oedd yn dod cyn y Nadolig - ond cynigiodd hyn gyfle i'r rheini ohonom oedd yn bresennol sgwrsio a rhannu profiad â'n brodyr a'n chwiorydd.

Priodas – 15 Ionawr 2011

Llongyfarchiadau i **Rebecca (Murphy)** a **Matthew Lyne-Pirkis** ar eu priodas yng Nghapel Minny Street heddiw. Dymunwn yn dda i'r ddau ohonynt.

Undod Cristnogol – 13 Ionawr 2011

Sefydlwyd ***Wythnos o Weddi dros Undod Cristnogol*** ym 1908 gan y Parchedig Paul Wattson, cyd-sefydlwr Cymdeithas y Cymod. Erbyn heddiw dilynir yr Wythnos ar draws y byd fel mynegiad o weithgarwch eciwmenaidd lleol. Paratoi ar gyfer ***Wythnos Weddi am Undod Cristnogol*** (18 - 25 Ionawr 2011) bu **Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd** yn ei wneud yn ei gyfarfod cyntaf yn 2011. Gan mai yng Nghapel Minny Street y cynhaliwyd yr oedfa, y Gweinidog bu'n llywyddu a gwahodd Cadeirydd Newydd y Cyngor, y Parchedig Menna Brown, i draddodi ei hanerchiad ar *Undod Cristnogol*. Mae yna wahaniaeth rhwng undeb ac undod oedd byrdwn ei neges. Nid yw undod eglwysig yn angenrheidiol yn golygu undeb eglwysig - cysylltwn undeb ag unffurfiaeth lle bod undod yn cwmpasu prydferthwch amrywiaeth. I'r Cristion nid delfryd i'w gyflawni yw undod eglwysig ond gwirionedd i'w gydnabod. Mae gennym ffydd gyffredin, teyrngarwch cyffredin a chonsyrn cyffredin yng Nghrist: *"a'r gân am byth - un Arglwydd, un Eglwys ac un ffydd."* (cyf. W H Harris, 1884-1956; *C.Ff.* 614).

Munud i Feddwl - 12 Ionawr 2011

Arizona, Tunisia, Swdan a'r Traeth Ifori. Ceisio rhoi'r hyn sy'n digwydd yn y mannau hyn yn nghyd-destun Neges y Nadolig a wna'r Gweinidog yn ei **Funud i Feddwl** yr wythnos hon.

PIMS – 10 Ionawr 2011

"***Y mae tymor i bob peth, ac amser i bob gorchwyl dan y nef:***" (Pregethwr 3:1-8); ar ddechrau 2011 addas iawn mai dyna pwnc trafodaeth **PIMS** heno. Sut dylai'r Cristion weld rhodd Duw o "*dymor i bob peth*"? Fel **P**obl **I**fanc **M**inny **S**treet sut dylid treulio, defnyddio a gwneud y gorau o amser? Beth yw amser? Sut mae delio â thaith amser? Cwestiynau dyrys ond, fel bob amser, cafwyd ymatebion athrylithgar, profoclyd ac ambell un doniol! Gyda Thymor Addunedau newydd basio rhaid oedd gofyn a fu i aelodau **PIMS** wneud Addunedau Blwyddyn Newydd. Erys yr hyn a rannwyd yn gyfrinach rhwng **PIMS**, y Gweinidog a'i gynorthwywyr(!) ond gellir rhannu'r argymhellion am Addunedau i Eglwys Minny Street. Cafwyd apêl ar i Eglwys Minny Street i fod yn fwy ymwybodol o'i rôl fel stiward amgylcheddol, ynghyd â bod mwy mentrus yn yr hyn a wna dros elusennau - beth am gynnal sioeau?; beth am wneud mwy o ymdrech i sicrhau cyfleoedd i bawb, hen ***ac ifanc***, i gyfrannu. Cynigiwyd syniadau hefyd ar i'r eglwys roi cyfle mewn oedfaon i aelodau **PIMS** adrodd nôl am yr hyn y maent yn eu ddysgu; ac i hyrwyddo'n tystiolaeth cynigiwyd hongian posteri a dyfyniadau o'r Ysgrythur ar furiau'r capel. Braf hefyd fyddai gweld Eglwys Minny Street yn gwneud mwy yn y gymuned leol, ac efallai bod angen i ni ymroi mwy ymysg trigolion Caerdydd sy'n arddel gwahanol ffydd.

Pregeth, Cwpled a Charol – 9 Ionawr 2011

Sul yn **llawn** moliant ac addoliad bu heddiw yn Eglwys Minny Street!

Bore heddiw, yn ein **Hoedfa Foreol Gynnar** cafodd y plantos eu cyfle i berfformio ei ***Cyflwyniad Nadolig***; bu rhaid gohirio hwn oherwydd yr eira ddiwedd mis Rhagfyr. Cawsom

glywed Stori'r Nadolig ar ffurf cyfres o gwpledi a chaneuon; braint oedd ymuno yn asbri a brwdfrydedd y plantos wrth iddynt fynd ar y daith i Fethlehem yng nghwmni'r asyn; wrth weld rhyfeddod yr hyn a ddigwyddodd yn yr ystabl trwy lygaid y robin, yr oen a'r fuwch; y defaid ar y bryn yn adrodd eu hanes; a'r camelod yn cario'r tri gwr doeth. Er i'r Nadolig basio gwefr oedd gweld a chlywed yr Hen, Hen Hanes unwaith eto.

Dychwelyd i ***Lythyr Iago*** a wnaethom yn **Oedfa'r Bore** - dechrau 2011 trwy gychwyn ar ein hastudiaeth o'r Ail Bennod. Cawn ein hatgoffa gan Iago na ddylid dangos Y Fam Theresa: Ffydd a Gweithredoeddffafriaeth tuag at neb oherwydd eu cyfoeth, safle, enwogrwydd neu addysg. O fewn Cymdeithas yr Eglwys dylid parchu person am y rhesymau cywir: ymroad, aberth, egni ysbrydol a dyfnder profiad. Fe'n hatgoffwyd hefyd mai at y tlawd, gwan, dinod a'r syml y dengys Duw ffafriaeth. Buom hefyd yn trafod pwysigrwydd *Ffydd a Gweithredoedd*; prif bwyslais Paul yw Ffydd, a phrif bwyslais Iago yw Gweithredoedd. Rhaid sylweddoli nad croesddweud na chondemnio ei gilydd a wnânt. Rhaid wrth y ddau - gwaith a gweddi, llonyddwch a llafar, ymdawelu ac ymdrechu - Ffydd a Gweithredoedd. Neges bwysig iawn ar ddechrau blwyddyn newydd.

Cynhaliwyd ein **Hoedfa Plygain** yn Eglwys Teilo Sant ar dir Amgueddfa Werin San Ffagan yn ystod y prynhawn. Y Gymdeithas Ddiwylliannol sy'n trefnu'r dathliad ac er nad ydym yn dilyn yr hen draddodiad gwreiddiol o ganu gyda '*caniad y ceiliog*' dilynwn arfer diwedd y 18fed ganrif i gyfarfod yn ystod y dydd rhywbryd rhwng Nadolig a'r Hen Galan. Fe'n harweiniwyd mewn defosiwn gan y Gweinidog. Daeth cynulleidfa dda ynghyd i ganu, mewn grwpiau ac fel unigolion, dwy 'rownd' o Garolau Plygain; braf eleni oedd cael cwmni Parti Merched Adran Heol y March sy'n cynnwys ymysg ei aelodau rhai o blant ac ieuenctid Minny Street.



Y Trydydd Gorchymyn oedd thema ein **Hoedfa Hwyrol**: *"Na chymer enw'r Arglwydd dy Dduw yn ofer …"* (Exodus 20:7a). Beth olyga hyn i ni yn 2011? Ai peidio defnyddio iaith anweddus? Ai peidio defnyddio enw Duw mewn llw ac yna torri'r addewid a wnaed? Neu, peidio

defnyddio enw Duw yn arf yn erbyn arall? Neu yn gyfrwng i ddylanwadu ar bobl? Hyd yn oed, i fanipiwleiddio eraill? Trwy ystyried hanesion Solly Weinstock yn Auschwitz, Mohm o Cambodia yn y Gwersyll Ffoaduriaid yng Ngwlad Tai a Linda sydd wedi ei chyfyngu i gadair olwynion o ganlyniad i afiechyd parlys yr ymennydd gwelsom sut gall crefydd fod yn beryglus, sut gall frifo yn ddwfn a dwys. Cawsom ein dwysbigo gan y sylweddoliad mor hawdd yw cymryd enw'r Arglwydd ein Duw yn ofer er mwyn ein crefydd ac na *"fydd yr Arglwydd yn ystyried yn ddieuog y sawl sy'n cymryd ei enw'n ofer"* (Exodus 20: 7b). Gwers fawr ar ddechrau 2011!

Amser oedd thema trafodaeth **Wedi 7** heno ar aelwyd Teulu'r Gweinidog. Ai cyfaill, ai gelyn yw amser? Gan ddefnyddio llythrennau'r gair 'amser' buom yn trafod yr angen am amser i ddod i adnabod Duw yn hytrach na chydio mewn **A**rian; yr angen i gydio mewn amser am ei fod yn **M**ynd yn gyflym; pwysigrwydd treulio amser yn '**S**tordy amynedd, dyfalbarhad, ffydd gobaith a chariad yr eglwys; yr **E**nnill a ddaw yn sgil cydio mewn amser; a chyfle i ofyn faint o **R**eidrwydd sydd wrth amser?

Gair Pos Mis Rhagfyr oedd **IESU**.

Munud i Feddwl – 5 Ionawr 2011

Yn ôl ei gyfaddefiad ei hun, Gweinidog *retro* sydd gan Eglwys Annibynnol Minny Street - wel o leiaf pan ddaw i adloniant teuluol! Gweld bywyd mewn gêm o *Monopoly* a wna'r Gweinidog yn ei **Funud i Feddwl** yr wythnos hon.

Y Gymdeithas: Sebon, Heulwen, Het a Chlocsen - 4 Ionawr 2011

Cawsom noson gofiadwy yng nghwmni Dianne ac Andrew Bartholomew i ail ddechrau gweithgareddau'r Gymdeithas. Nid noson oedd hon lle 'roeddech yn eistedd nôl yn braf – cafwyd gwledd i'r glust a'r llygad, ond 'roedd yn rhaid bod yn effro i ateb ambell gwestiwn a hyd yn oed i godi a chrwydro.

1908: 'Roedd y ***Sebon*** a'r ***Heulwen*** yn nheitl y noson yn cyfeirio at gwmni sebon *Sunlight* ac at berchennog y cwmni hwn a brynodd ddarlun enwog. Yna, fe'n harweiniwyd o'r festri i'r capel i weld tableau trawiadol o rai o'n haelodau wedi eu gwisgo yng ngwisgoedd y 19eg Ganrif. Ar ôl dychwelyd i'r festri cawsom gwis byr a daeth yn amlwg mai *Salem* oedd y darlun enwog, y darlun a baentiwyd gan Sidney Curnow Vosper yn 1908. Gwnaeth Dianne ein harwain yn ddeheuig wedyn at yr ***Het a Chlocsen***. Esboniwyd bod y llun *Salem* wedi ysbrydoli Cwmni Dawns Werin Caerdydd, y mae Dianne ac Andrew yn aelodau ohono, i feddwl o ddifrif am ddilysrwydd eu gwisgoedd dawns traddodiadol. Dylanwadwyd arnynt hefyd gan un o ddarluniau eraill gan Curnow Vosper *Diwrnod Marchnad yng Nghymru.*

Dangoswyd amryw o sleidiau o wisgoedd y cyfnod a phwysleisiodd Dianne ac Andrew ddyled enfawr y parti dawns i Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, wrth i'r Cwmni Dawns lunio amryw o wisgoedd hardd a gosgeiddig ar gyfer amrywiol ddawnsfeydd. Soniwyd am rhai o deithiau'r Cwmni i Siapan a'r Amerig, ond y daith a greodd argraff ddofn arnynt oedd honno i'r Wcráin a hynny oherwydd natur groesawgar y bobl. Pobl dlawd oeddent ond 'roedd pob un ohonynt yn fodlon rhoi yn hael o'r ychydig oedd ganddo. Argyhoeddwyd Dianne ac Andrew a'r Cwmni Dawns o weld y fath haelioni bod cyfnewid diwylliannol yn ffordd hynod effeithiol o greu perthynas gyfeillgar a chymodlon rhwng cenhedloedd byd. Yr Athro Sioned Davies fydd yn rhoi darlun o fywyd a chyfraniad ***Charlotte Guest*** yng nghyfarfod nesaf Y Gymdeithas ar ***Nos Fawrth, 18 Ionawr 2011***.

Her Blwyddyn Newydd – 2 Ionawr 2011

Cyflwyno her i Eglwys Annibynnol Minny Street a wnaeth y Gweinidog yn Oedfa Gyntaf y Flwyddyn Newydd. Geiriau Moses with Josua - *"Dewis dy wyr, a dos ymaith i ymladd yn erbyn Amalec: yfory fe gymeraf finnau fy lle ar ben y bryn, a gwialen Duw yn fy llaw."* (Exodus 17:9) -

oedd testun ein sylw gan ganolbwyntio ar ddau gymal. ***"yfory fe gymeraf fy lle ar ben y bryn"*** - nododd y Gweinidog bod rhaid mynd i ben y bryn i fod mewn cymundeb â Duw; gofynnodd ai oherwydd ein bod bellach yn gweld dringo i ben y bryn yn ormod o waith mae Duw wedi peidio bod yn real i gynifer o bobl yn 2011? (Llun: *Victory O God! gan John Everett Millais (1871). Moses, Aaron a Hur ar ben y bryn.)* Ar ben y bryn nid oes dim rhyngom â Duw; ar lawr y dyffryn â ffydd yn ddiystyr, gweddi yn ddiangen, cyll cydwybod ei fin ac â cariad yn ddim amgenach na sentiment gwag. Nododd y Gweinidog hefyd os am gael Duw yn realiti yn ein bywydau rhaid cael lle i droi i mewn iddo yn rheolaidd, i gwrdd â Duw ac â phobl Duw - *"**fy lle** ar ben y bryn"*. Mae pen y bryn hefyd yn lle i eiriol dros eraill; trwy fod ar ben y bryn y diogelodd Moses, Aaron a Hur pawb islaw yn y dyffryn. Ar ddechrau 2011 fe'n heriwyd i gymryd ein lle ar ben y bryn er mwyn cael cwrdd â Duw, cwrdd â phobl Duw yn lleol, ac eiriol dros bawb o bobl Dduw ym mhob man. ***"a gwialen Duw yn fy llaw"*** - yr un wialen a ddefnyddiodd Moses i daro dwr y Neil a'i droi'n waed (Exodus 7: 14-25) ac a ddefnyddiodd i daro'r graig yn Horeb i ddyfrhau syched ei bobl. Mae'r oes yn newid ond ni olyga hynny bod Duw wedi gorffen â'r hen gyfryngau. Wrth herio Eglwys Minny Street i newid, symud a datblygu fe'n hatgoffwyd gan y Gweinidog gall cyfryngau a fu'n llwyddiannus ddoe fod yn llwyddiant heddiw. Yr hyn sy'n allweddol yw bod ein cyfryngau i gyfathrebu Newyddion Da ffydd, gobaith a chariad yn eiddo i Dduw.

Gyda Moses y bu i ni aros yn Oedfa'r Hwyr. Cwestiwn mawr Moses, ***"Pwy wyf fi …?"*** (Exodus 3:11) ac ateb mwy Duw, ***"Ydwyf yr hyn Ydwyf"*** (Exodus 3:14) oedd ein thema heno (Llun: *Moses before the Burning Bush* gan Domenico Feti (1613)). Y rhwystr pennaf iddo wneud gwaith Duw oedd, yn ôl Moses, ef ei hun. Dyn mawr nad oedd yn ymwybodol o'i fawredd; yn hytrach yn canolbwyntio ar ei derfynau a'i gyfyngiadau. Yn ei ateb mae Duw yn cyfleu tri pheth amdano'i hun. **Duw Personol:** mae ein bywydau yn gwbl ddiogel yn Nuw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist. **Duw Digonol:** Yn "*Ydwyf*" Duw mae ein gobaith, arno Ef mae ein hyder, ac ohono Ef y daw ein nerth. **Duw Presennol:** Fel y berth yn llosgi heb ei difa, byw a wna Duw heb heneiddio, a'n hyn heb fynd yn hen, rho heb dlodi dim o'i gyfoeth ac ni threulir dim ar nerth ei egni wrth

i amser i fynd heibio. Duw felly sydd o'n plaid a gyda geiriau Paul (Rhufeiniaid 8: 31-39) yn atseinio yn ein clyw - ***"Os yw Duw trosom …"*** fe'n harweiniwyd ar Fwrdd y Cymun i rannu Swper yr Arglwydd. Ymunodd dau aelod, oedd yn methu bod yn bresennol gyda ni yn y capel, y naill adref a'r llall yn yr ysbyty, i gydgyfranogi yn y bara a'r gwin o amgylch Bwrdd yr Arglwydd trwy'r Cymun Teithiol.

Metropolis 1916-17 gan George Grosz a *The Prophet Jeremiah Mourning over the Destruction of Jerusalem* gan Rembrandt yw'r gelfyddyd dan ystyriaeth yn **… ac Ati** y mis hwn; ein hymwneud â phobl eraill yw sail **Myfyrdod y Mis**.

Troi at Dduw yn 2011: Neges y Llywydd - 1 Ionawr 2011

Ynghanol trafferthion mawr byd a bywyd, mae'r Calan yn amser da i wneud adduned sy'n werth dal ati: troi at Dduw am obaith ac arweiniad newydd. Dyna **Neges Blwyddyn Newydd** y Parchedig Andrew Lenny, Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Mae'n herio eglwysi i dynnu eu pennau o'r tywod ac i achub ar bob cyfle i gyhoeddi'r efengyl Gristnogol yn 2011. *"Daeth Crist y Nadolig cyntaf i fyw i ganol ofnau a phryderon, casineb a thlodi'r byd."*, meddai, *"Mae e'n deall sut mae dyn yn ei angen yn teimlo. Gwyr am yr unigrwydd a'r gofid, y cywilydd a'r siom sy'n rhan o fywyd dyn yn y byd hwn. Cafodd ef ei glwyfo gan y byd, a'i glwyfo er ein mwyn ni. Nid yw e'n diffodd pan fyddwn ni'n diffodd y golau ar y goeden Nadolig am flwyddyn arall."*

Mae 2011 yn mynd i fod yn flwyddyn brysur a chyffrous yn hanes Annibynwyr Cymru. Trwy gydol y flwyddyn, bydd Undeb yr Annibynwyr yn cynnal cyfres o gyfarfodydd ac arddangosfeydd ledled Gymru a thu hwnt i gyflwyno Rhaglen Datblygu ar gyfer eglwysi a chyfundebau, mewn ymdrech i helpu eglwysi lleol Annibynnol i adfywio eu hunain. *"Diolchwn, wrth wynebu blwyddyn newydd, fod Undeb yr Annibynwyr yn offeryn yn llaw Duw i fod yn ddolen gyswllt rhwng yr eglwysi, ac i hybu a chefnogi'r eglwysi yn eu gwaith o gyhoeddi'r Efengyl a thystio i fawredd a gogoniant yr Arglwydd Iesu Grist"*, meddai'r Parchedig Andrew Lenny. *"Gweddïwn y daw Duw, trwy'r Ysbryd Glân, i weithio'n rymus yn ein plith yn 2011."* **Bydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn ymweld â Chyfundeb Dwyrain Morgannwg, y Cyfundeb y perthyn Eglwys Minny Street iddo, ar 21 a 22 Medi 2011.**